Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Prosiect Argyfwng Costau Byw

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Ynni Cymru

### Cynllun Grantiau Cyfalaf 2025

Mae Cynllun Grantiau Cyfalaf Ynni Cymru yn fyw ar hyn o bryd ac mae'n gwahodd ceisiadau.
Mae Ynni Cymru yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol a Systemau Ynni Lleol Smart (SLES). Maent wedi creu rhaglen grantiau cyfalaf £10 miliwn.
Gall sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a chymunedol, a mentrau bach a chanolig (SME) sy'n awyddus i ddatblygu SLES yng Nghymru gynnig am arian. Mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau dan arweiniad cymunedau gwerth rhwng £25,000 – £150,000.

## Chwaraeon Cymru Grant Arbed Ynni

Mae'r Grant Arbed Ynni yn helpu grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon yng Nghymru i wneud gwelliannau sy'n torri costau ynni ac yn gwneud eu hadeiladau yn fwy effeithlon.
Gallwch wneud cais am hyd at £25,000 i wella eich adeilad clwb neu ystafelloedd newid a lleihau eich costau rhedeg.

## Cronfa Ymddiriedolaeth Deddf yr Eglwys yng Nghymru

Mae Deddf yr Eglwys yng Nghymru yn dosbarthu ei hasedau yn gyfartal ar draws Awdurdodau Unedol Cymru.
Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael mwy o wybodaeth am y gronfa yn eich ardal chi.

## Cronfa Dŵr Cymru

Mae Cronfa Dŵr Cymru wedi ail-agor ar gyfer ceisiadau
1af Mai 2025 – 30ain Mehefin 2025

- Gwelliannau i'r amgylchedd neu fentrau cymunedol lleol sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant ac amcanion amgylcheddol.
- Gweithgareddau a drefnir gan grwpiau cymunedol cofrestredig – yn benodol felly gyda iechyd, llesiant, cefnogaeth gyda chostau byw ac amcanion amgylcheddol.
- Gwella a chefnogi gweithgarwch addysgol lleol, er enghraifft effeithlonrwydd dŵr, amgylcheddol, manteision arloesi.

## Cyngor Celfyddydau Cymru – Rhaglen Creu

Creu | Cyngor Celfyddydau Cymru
Mae "Creu" yn ariannu'r gwaith o ddatblygu a chreu profiadau celfyddydol o ansawdd uchel sy'n helpu unigolion a mudiadau creadigol i ymgysylltu a gweithio gyda'r cyhoedd.
Daw proses ceisiadau'r ail rownd i ben ar ddydd Mercher yr 20fed Awst am 1pm
Bydd cyfnod gwneud cais i'r rhaglen Creu Bach yn cau ar ddydd Gwener 1af Awst 2025

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Prosiect Argyfwng Costau Byw

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cyfleoedd Rhanbarthol

Ail-lansio **Cronfa Cymunedau Eryri!**
Mae Cronfa Cymunedau Parc Cenedlaethol Eryri yn agored unwaith eto ar gyfer ceisiadau!
Pwrpas y gronfa hon yw cefnogi grwpiau llawr gwlad i wella a chryfhau cynaliadwyedd, llesiant, a gwytnwch ein cymunedau ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol.

Mae gan **Sefydliad Cymunedol Cymru** gyfleoedd **Cronfa Waddol** rhanbarthol sy'n cefnogi grwpiau ac unigolion i gael gafael ar arian.
Mae disgwyl i'w **Cronfa i Gymru** ail-agor ym mis Mehefin.

Gellir defnyddio **Grant Symiau Cymudedig** Cyngor Sir Ddinbych gan gynghorau cymuned a thref i wella neu baratoi llecynnau agored/lleoedd chwarae mewn ardaloedd datblygu sy'n gymwys.

TTrydydd cylch **Cynllun Grantiau Bychain y Trydydd Sector 2025/26 – Cronfa Gweithredu Cymunedol!**
Mae'r cynllun grant hwn (refeniw a chyfalaf) yn bodoli i gefnogi gwaith cymunedol a gwirfoddoli sy'n ceisio gwella a chryfhau: Cymunedau lleol; yr amgylchedd; Iechyd a llesiant ar draws Bro Morgannwg. Gall mudiadau wneud cais am hyd at £5,000.

### 🌟Cronfa Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc🌟

Mae'n Agored ar gyfer Ceisiadau Yn Awr!
Mae Cynghorau Gwirfoddol Rhanbarthol yn derbyn ceisiadau ar hyn o bryd ar gyfer y Gronfa Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc, a ddarperir ar ran WCVA a Llywodraeth Cymru.
💡 Mae'r gronfa hon yn ymrymuso pobl ifanc i:
✅ Ddatblygu eu mentrau eu hunain
✅ Chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau
✅ Cynnwys a recriwtio pobl ifanc eraill i wirfoddoli
📢 Mae grantiau hyd at £2,000 ar gael i:
👉 Gefnogi prosiectau gwirfoddoli
👉 Datblygu gweithgareddau gwirfoddoli newydd
📍 Cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Rhanbarthol i gael gwybod sut i wneud cais!

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**